

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

1af o Ebrill 2014 i'r 31ain o Fawrth 2015

**South Wales**  
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub  
**De Cymru**

**Raising Awareness - Reducing Risk**

# Datganiad Cydraddoldeb

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn parhau i adeiladu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob peth y gwnawn - o greu gweithle sy'n rhoi gwerth i amrywiaeth gweithwyr, i ddarparu gwasanaethau sy'n ganolog i'r bobl i holl gymunedau De Cymru. Taith barhaol yw hon yr ydym yn ymrwymedig i'w pharhau.



Huw  
Jakeway Prif  
Swyddog Tân



Sally Chapman  
DBS  
Gwasanaethau Cyllid  
a Chorfforaethol



Cyng. Tudor  
Davies  
Cadeirydd  
Awdurdod TADC

I weld sut yr ydym yn gweithio i wneud cydraddoldeb yn fyw yn y Gwasanaeth Tân, a fyddech cystal â chymryd cipolwg ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Lleihau Risg, a'n Cynllun Gwella. Gellir canfod bob un o'r rhain, ynghyd â gwybodaeth eraill, ar ein gwefan: [decymru-tan.gov.uk](http://decymru-tan.gov.uk)

*Gellir darparu'r ddogfen hon mewn fformatau amgen ar gais gan y cyswllt a ddarperir ar y dudalen gefn.*

# Cynnwys

	Tudalen(nau)
<b>Cyflwyniad</b> .....	4
<b>Pwy ydym ni?</b> .....	5
<b>Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd</b> .....	6
<b>Y Ddyletswydd Gyffredinol</b> .....	7, 8
 <b>Dyletswyddau Penodol:</b>	
Rheoleiddiadau 3 a 4 .....	8
Rheoleiddiadau 5 a 6 .....	9
Rheoleiddiadau 7 a 8 .....	10
Rheoleiddiad 9 .....	11
Rheoleiddiad 10 .....	12
Rheoleiddiadau 11 a 12 .....	13
Rheoleiddiadau 13 a 14 .....	13
Rheoleiddiad 18 .....	14
 <b>Atodiadau:</b>	
Data Gwasanaeth .....	15
Data Arolwg Ôl-Ddigwyddiad .....	16
Data Staff – Cyffredinol .....	17
Data Staff – Fesul Rôl .....	18
Data Recriwtio Corfforaethol .....	19
Data Recriwtio Ymladdwyr Tân Rhan Amser.....	20
Geirfa .....	21

## Cyflwyniad


**Newidiodd Cydraddoldeb yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn fwyaf diweddar wrth amnewid dros 100 darn o ddeddfwriaeth gydag un darn o gyfraith (Deddf Cydraddoldeb 2010), a'r Dyletswyddau Penodol Cymreig**

Bwriada'r Adroddiad Blynyddol hwn gwrdd â Rheoleiddiad 14 o'r Dyletswyddau Penodol Cymreig. Parha o'r Adroddiad Blynyddol diwethaf, a dylid ei ddarllen ynghyd ag ef i dderbyn y darlun cyfan ([LINK](#))

# Pwy Ydym Ni?

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn cwmpasu 10 Awdurdod Unedol. Mae 24 o aelodau etholedig yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a enwebwyd o'r 10 AAU. Un o'r ardaloedd gwasanaeth tân ac achub fwyaf yn y DU ydyw ac mae'n cynnwys ardaloedd gwledig, arfordirol a threfol.

**Arwynebedd:** 2,700 km<sup>2</sup>  
**Poblogaeth:** 1.49 miliwn  
**Anheddau:** 659,000  
**Eiddo Annomestig:** 44,800  
(Ffigyrau amcangyfrifol)



## Yn 2014-15, fe ddeliom â:

- **30,051** o **alwadau brys**
- **17,402** o **ddigwyddiadau**
- **5,916** o danau - o blith y rhain roedd **4,156** yn fwriadol
- **1,284** o wrthdrawiadau traffig ar y ffordd (GTFf)

Ffynhonnell - System Cofnodi Digwyddiadau (SCD)

## Fe wnaethom y canlynol:

- Rhyddhawyd **368** o bobl gennym a oedd yn gaeth mewn cerbydau
- Ni fyddinwyd i **727** o alwadau, yn dilyn eu hadnabod fel rhai ffug maleisus
- Mynychwyd **420** o alwadau wedi methu a'u hadnabod fel rhai maleisus
- Cwblhawyd **24,990** o archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref
- Cyflawnwyd **908** o ddigwyddiadau hyrwyddo diogelwch tân
- Cyflawnwyd **1,192** o sgysiau addysgiadol diogelwch tân
- Cynhaliwyd ymgysylltiadau wyneb yn

wyneb â **68,417** o bobl drwy ddigwyddiadau diogelwch cymunedol ac addysgiadol

Ffynhonnell:- Gwasanaethau Tân ac Achub' Adroddiadau Ystadegol Blynyddol (Diogelwch Tân Cymunedol 2014-15)

Daliwyd cytundebau cyflogaeth ar gyfer:

**52** o staff rheoli, **293** o staff corfforaethol, **668** o ymladdwyr tân rhan amser, ac **807** o ymladdwyr tân llawn amser (lle mae **682** wedi'u lleoli yn yr orsaf). Yn ogystal, roedd **168 o ymladdwyr tân** cynorthwyol ar gyfer cwmpasiad ychwanegol mewn cyfnodau o anhawster.

Mae gennym **47** o orsafoedd tân a fyddinodd beiriannau tân a cherbydau wrth gefn ill dau.

Mae gennym gerbydau arbenigol eraill i ddelio ag ystod eang o argyfyngau (e.e. achubiadau anifeiliaid mawr, ac ati)

Rheolir pob galwad frys gan ein hadran Rheoli Tân a leolir ym Mhont-y-clun, a'n pencadlys sydd yn Llantrisant.

## Ein Gweledigaeth

I wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg.

Mae ein Datganiad Gweledigaeth yn disgrifio dyfodol delfrydol ac yn uno GTADC ynghylch pwrpas cyffredin.



## Ein Cenhadaeth

Byddwn yn cyflawni ein Gweledigaeth wrth:

- Wasanaethu anghenion ein cymunedau
- Weithio ag eraill
- Wynebu heriau drwy arloesedd a gwelliant
- Leihau Risg wrth addysgu, gorfodi ac ymateb
- Lwyddo i wneud De Cymru'n ddiogelach

## Ein Gwerthoedd

Diffinia ein GWERTHOEDD yr hyn yr ydym yn credu ynddynt — ein rheolau craidd ydynt. Unwaith y'i diffinnir, dylai'r gwerthoedd hynny sy'n bwysig i ni gael eu hadlewyrchu ym mhopeth y gwnawn

## Yn ofalgar

- Yn bwrpasol
- Yn ddisgybledig
- Yn rymus
- Yn broffesiynol
- Yn hydwyth
- Yn barchus
- Yn ddibynadwy

Pryd bynnag y dewch i gysylltiad â'r Gwasanaeth, dylai'r gwerthoedd hyn fod yn amlwg ar bob adeg.



# Y Ddyletswydd Gyffredinol

Sefydlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol sy'n anelu i sicrhau nad ydy pobl sydd â Nodweddion Gwarchoddedig yn cael eu gwahardd, y gwahaniaethir yn eu herbyn, neu fel arall y cânt eu trin yn llai nag unrhyw un arall, o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig; a gynhwysir gan dri maes hanfodol:

Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf

Dyrchafu cydraddoldeb cyfle rhwng personau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol â phersonau nad sy'n rhannu hyn

Maethu perthnasau da rhwng personau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol â phersonau nad sy'n rhannu hyn

Cefnogir y Ddyletswydd Gyffredinol ymhellach gan y Dyletswyddau Penodol Cymreig (mae'r Ddeddf Hawliau Dynol hefyd yn cefnogi gwaith cydraddoldeb, ond ni chynhwysir hyn o fewn yr Adroddiad).

## **Mae rhai o'r ffyrdd y buom yn gweithio tuag at y Ddyletswydd Gyffredinol yn cynnwys:**

Cynhaliwyd un diwrnod agored gorsaf dân i holl aelodau'r gymuned

Cyfranogwyd ym Mynegai Gweithleoedd Stonewall,

Daethpwyd yn rhan o'r ymgyrch Rhuban Gwyn

Daethpwyd yn bartner â Phrosiect Amser i Newid Cymru

Cyfranogwyd yn Niwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn a chynhaliwyd ymgyrch Diogelwch Tân yn y Cartref penodol

Roeddem yn noddwr i'r digwyddiad aml-ddiwylliannol Mela

Datblygwyd cyfarwyddyd i gefnogi amrywiol anghenion staff yn y gorsafoedd

Crëwyd fideo mewnol i fynd law yn llaw â'n polisi Trais Domestig

Datblygwyd fideos i'w defnyddio gan ferched sydd â diddordeb mewn ymgeisio dod yn ymladdwyr tân

Cyfranogwyd yn nigwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Merched i hyrwyddo gyrfaoedd nad sy'n draddodiadol i ferched

# Y Dyletswyddau Penodol Cymreig

Dengys yr adran hon beth a wnaethpwyd gennym, a beth yr ydym yn bwriadu gwneud, mewn perthynas â'r Dyletswyddau Penodol Cymreig, er mwyn cyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol fel y soniwyd amdani uchod.

## Rheoleiddiad 3: Amcanion Cydraddoldeb

Dylid prif ffrydio amcanion cydraddoldeb fel y gall pob gwasanaeth ac adran gyfrannu at welliannau cydraddoldeb a rheoli eu hymrwymiaidau cydraddoldeb fel rhan annatod o'u gwelliannau cyffredinol a'u hymrwymiaidau gwasanaeth i gwsmeriaid.

## Rheoleiddiad 4: Paratoi ac adolygu amcanion cydraddoldeb

Mae gan Awdurdodau ddyletswydd i gasglu ystod o wybodaeth cydraddoldeb i gyfrannu at y gronfa dystiolaeth hon.

## Beth a wnaethom

Datblygwyd, i Atal Tân, ffurflen fonitro weithredol Cymru Gyfan ar gyfer ymgysylltu cymunedol fel y cawn well darlun o'r grwpiau hynny yr ydym yn cyrraedd, a'r rhai nad ydym yn cyrraedd.

Parhau â'r gwaith parhaol parthed sut yr ydym yn casglu gwybodaeth, pam yr ydym yn gwneud hyn a beth sy'n newid o ganlyniad i hyn, ar sail Cymru gyfan

Sefydlwyd tîm pwrpasol i archwilio, gweithredu, ymgysylltu ac ymgynghori

## Beth ydym yn bwriadu ei wneud

Cynyddu ymhellach casglu holl wybodaeth cydraddoldeb Cymru Gyfan â'r ddau Wasanaeth Tân arall

Sicrhau fod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn hawdd i'w ddarllen, yn fyr ac yn cysylltu â chymau gwella a osodwyd gan y Gwasanaeth

## **Rheoleiddiad 5: Darpariaethau Ymgysylltu**

Fel rhan o gasglu gwybodaeth berthnasol, bydd angen i Awdurdod ymgysylltu â phobl briodol wrth asesu'i waith mewn perthynas â chwrdd â thri nod y ddyletswydd gyffredinol

**CCS - Canlyniad 1:** Mae gwybodaeth lleihau risg a'i ddarpariaeth yn gyrchadwy i bob cymuned a gaiff ei deilwra i'w hanghenion

**CCS - Canlyniad 2:** Gweithgaredd ymgysylltiol â'r gymuned sy'n gydgysylltiol, yn gynaliadwy ac wedi'i deilwra, yn maethu ymddiriedaeth a dealltwriaeth gydfuddiannol sy'n hyrwyddo gwelliannau yn narpariaeth ein gwasanaethau

### **Beth a wnaethom**

Cynyddwyd y defnydd o wybodaeth ddarluniadol mewn perthynas â lleihau risg ar draws cymunedau

Cyfranogwyd mewn sesiynau wedi'u recordio i'w defnyddio fel podlediadau i bobl sy'n ddall neu sydd â gwelededd wedi'i amharu

Buom yn bartneriaid gweithredol yn Niwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn a oedd yn cynnwys gwybodaeth diogelwch yn y cartref targededig

Hyrwyddwyd y llinell iaith ymhellach gan staff rheng flaen

Ehangwyd a chryfhawyd ein partneriaethau allanol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan (megis y 55 asiantaeth wirfoddol sy'n cyflawni archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref i'w defnyddwyr)

### **Beth ydym yn bwriadu ei wneud**

Datblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu bwrpasol

## **Rheoleiddiad 6: Hygyrchedd gwybodaeth a gyhoeddwyd**

- Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau y cyhoeddir unrhyw ddogfen neu wybodaeth i gwrdd â'i ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol neu benodol mewn ffurf sy'n gyrchadwy i bobl o grwpiau gwarchoddedig
- CCS - Canlyniad 13: Cysylltiadau mewnol ac allanol yn hyrwyddo negeseuon cydraddoldeb ac amrywiaeth allweddol sy'n adnabod anghenion cyfathrebu amrywiol y staff a'r gymuned

### **Beth a wnaethom**

Sicrhawyd y bydd pob fideo wedi'u his-deitlo

Cynyddwyd y defnydd o luniau a lleihau'r geiriad wrth rannu gwybodaeth, gan gynnwys ein hystadegau diwedd blwyddyn, â'r cyhoedd

Ymestynnwyd ein presenoldeb rhyngweithio cymdeithasol i hyrwyddo negeseuon/ymgyrchoedd allweddol

### **Beth ydym yn bwriadu ei wneud**

Ail gynllunio ein Cynllun Gwella fel y bydd yn haws i'w ddarllen, yn fyrrach a'i fod yn cynrychioli ein cymunedau amrywiol yn weledol.

Gwneud y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn lliwgar, yn hawdd i'w ddarllen, a'n hawdd i'w ddefnyddio ar ein gwefan

## **Rheoleiddiad 7: Trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd gyffredinol**

- Rhaid i awdurdod rhoi trefniadau priodol mewn lle i sicrhau ei fod yn adnabod y wybodaeth berthnasol sydd yn ei feddiant, ac yn adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol nad sydd yn ei feddiant

**CCS - Canlyniad 11:** Caiff data cydraddoldeb ei goladu, ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i hysbysu gwelliannau

### **Beth a wnaethom**

Sefydlwyd tîm ymgysylltu mewnol

Gweithiwyd ag Atal Tân ar yr achos fusnes ar gyfer gwell casglu data o'n gwaith rhagweithiol (megis archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref)

Adeiladwyd y gallu i staff hunan reoli eu gwybodaeth cydraddoldeb i'r system AD newydd

### **Beth ydym yn bwriadu ei wneud**

Parhau i weithio ar wella sut yr ydym yn casglu data, pam ydym yn gwneud hyn, a sut y caiff ei ddefnyddio

## **Rheoleiddiad 8: Effaith a monitro polisiau ac arferion**

Mae angen cwblhau asesiadau pan gaiff polisi neu arfer ei gynnig neu ei adolygu. Bydd hwn yn cynnwys cynllunio busnes, cynigion o ran arbedion effeithlonrwydd ac ailstrwythuro staff

**CCS - Canlyniad 8:** Deellir buddion ymarferol cynnal Asesiad Risg Cydraddoldeb gan y staff cyfan ac fe'u cynhelir ar gychwyn pob gweithgaredd, penderfyniad a phrosiect neu ddatblygiad polisi.

### **Beth a wnaethom**

Darparwyd pedair sesiwn bellach o hyfforddiant Asesiad Risg Cydraddoldeb (ARC) i staff

### **Beth ydym yn bwriadu ei wneud**

Edrych ar sut y gellir corffori ysbryd yr Asesiadau Risg Cydraddoldeb yn well i'r hyn a wnawn

## **Rheoleiddiad 9: Casglu ac adrodd gwybodaeth cyflogaeth**

Cynhwysa hyn ddata ar recriwtio a dargadwedd, dyrchafu, cyfleoedd hyfforddi a chamau cwyno a diarddel

**CCS - Canlyniad 3:** Staff yn teimlo'n werthfawr a bod ganddynt fynediad cyfartal i gyfleoedd datblygu

**CCS - Canlyniad 10:** Awdurdod sy'n chwilio am welliannau ac sy'n fodlon ail-beiriannu ffyrdd cyfredol a thraddodiadol o weithio i gofleidio cyfleoedd yr hinsawdd economaidd gyfredol

### **Beth a wnaethom**

Gweithiwyd â darparwr y system AD newydd arfaethedig i gynnwys, lle bynnag posib, y gallu i staff gyflawni eu gwybodaeth Nodweddion Gwarchoddedig eu hunain (oed, anabledd, ac ati)

Cynyddu hyrwyddo'r cyfleoedd hyn drwy law'r hysbysiad arferol mewnol yn ogystal ag adran dysgu a datblygu'r fewnwyd

### **Beth ydym yn bwriadu ei wneud**

Monitro canran y staff sy'n cwblhau eu gwybodaeth ar y system AD newydd yn flynyddol

### **Data Cwynion:**

Allan o bymtheg achos disgyblu, mae'r data cydraddoldeb sydd ar gael fel a ganlyn:

Gwryw: 15 Gwyn/Prydeinig/Cymreig: 13 Asiaidd Pacistanaidd: 2 Heterorywiol: 13 Heb ddatgan: 2

Heb gasglu data cywir, daw cysylltiadau rhwng Nodweddion Gwarchoddedig a rhesymau dros Ddisgyblu/Cwynion yn anodd ei hasesu. Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol o hyn a bydd ffordd gyfrinachol o gasglu gwybodaeth yn cael ei wyntyllu yn ystod flwyddyn newydd.

## **Rheoleiddiad 10: Hyfforddiant Staff**

Mae'n ofynnol i Awdurdodau hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg gweithwyr a rhaid sicrhau y defnyddir gweithdrefnau asesu perfformiad, megis gwerthusiadau personol neu adolygiadau datblygu personol i adnabod a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi.

**CCS - Canlyniad 7:** Mae arweinwyr yn hyderus wrth hyrwyddo negeseuon cydraddoldeb allweddol, boed hynny'n fewnol neu'n allanol ill dau

### **Beth a wnaethom**

Rhoddwyd ein holl fodiwlau e-ddysgu ar system lle cawn weld ble y gall unrhyw fylchau fod

Darparwyd sesiwn ymwybyddiaeth i uwch reolwyr ar Ragfarn Anymwybodol

Cynhaliwyd gweithdy Colour Works i reolwyr canol

Hwyluswyd sesiynau cydraddoldeb o fewn sesiynau anwytho i staff

### **Beth ydym yn bwriadu ei wneud**

Adolygwyd a diwygiwyd y broses werthuso fel y bydd yn cynnwys trafodaethau real ac ystyrlon ynghylch cyfleoedd datblygu

Edrychwyd i brynu pecyn e-ddysgu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth

## Rheoleiddiadau 11 a 12: Cyflog Cyfartal a Chynlluniau Gweithredu

Yn ogystal, mae gofyniad i ystyried y wybodaeth hon wrth gynllunio amcanion cydraddoldeb. Hefyd, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gyhoeddi cynllun amcan a gweithredu cydraddoldeb mewn perthynas â mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau cyflog rhyw a adnabuwyd neu gyhoeddi'r rhesymau pam na wnaethpwyd hyn.

**CCS - Canlyniad 4:** Cyfathrebu agored, gonest ac aml gyfeiriadol yn maethu ymddiriedaeth, yn adeiladau perthnasau a'n hysbysu gwelliannau i'n staff. Cynhwysa hyn dryloywder a chydaddoldeb mewn perthynas â thâl

**CCS - Canlyniad 5:** Caiff unrhyw wrthdaro ymysg staff ei ddatrys yn sydyn

**CCS - Canlyniad 6:** Cyfleoedd am weithio hyblyg yn galluogi staff i gymhwyso eu hymrwymadau bywyd a gwaith

Fel rhan o'n Rhaglen Llundain ein Dyfodol, byddwn yn adolygu pob elfen o gytundebau gweithwyr i asesu cyflogau cyfartal (cynhwysa hyn lwfansau, buddion mewn nwyddau ac ati) ac yn adnabod materion.

Rydym hefyd yn prynu rhaglen a gymeradwywyd gan Awdurdodau Lleol i werthuso swyddi ac o hyn byddwn yn gallu gweld y bylchau a dechrau mynd i'r afael/datrys.

## Rheoleiddiad 13: Adolygu trefniadau

**Rheoleiddiad 14:** Adrodd blynyddol ar gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol. Rhaid adolygu amcanion cydraddoldeb o leiaf bob 4 mlynedd. Hefyd, mae'n ofynnol i awdurdodau gadw agweddau eraill o gydymffurfedd â'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol o dan arolygaeth

**CCS - Canlyniad 9:** Adrodd llwyddiannau a heriau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dryloyw

**CCS - Canlyniad 14:** Dethlir cyflawniadau a llwyddiannau a'u hyrwyddo'n fewnol, yn lleol ac yn genedlaethol

## Beth a wnaethom

Sicrhawyd y cyhoeddwyd ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn ddwyieithog cyn y terfyn amser

Gwneud adran cydraddoldeb ein gwefan yn haws i'w ddefnyddio fel y bydd yn haws canfod gwybodaeth

## Beth ydym yn bwriadu ei wneud

Datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd fel y bydd yn fyr, yn hawdd i'w deall, ac yn cysylltu ag amcanion gwella, ac â chanolbwynt ar bobl



## **Rheoleiddiad 18: Caffael Cyhoeddus**

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn gymwys i holl gaffaeliadau er gwaethaf gwerth y cytundeb. Mae'r ddyletswydd benodol yn gymwys pan fydd Awdurdod Lleol yn caffael trafodion gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill ar sail 'cytundeb perthnasol'

**CCS - Canlyniad 12:** Rydym yn defnyddio arian cyhoeddus mewn modd teg a chyfiawn, yn cynnal cymunedau a sefydliadau lleol wrth ledaenu mynediad i gytundebau wrth hyrwyddo cyfleoedd i Fusnesau Bach a Chanolig, busnesau lleol a'r trydydd sector

### **Beth a wnaethom**

Hysbysebwyd ein holl ofynion dros (£10,000 o ran cost) drwy borth Gwerthu i Gymru er mwyn atynnu Busnesau Bach a Chanolig Lleol.

Fel rhan o Wasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru, defnyddiwyd eu fframweithiau (a rannwyd yn lotiau rhanbarthol) gan fydd hyn yn sicrhau y bydd BBaCh yn medru ymgeisio am gytundebau a'u hennill.

### **Beth ydym yn bwriadu ei wneud**

Cyflawni sampl ar hap i gyflenwyr er mwyn gweld sawl un sy'n lleol

# Data Gwasanaeth

1af o Ebrill 2014 - 31ain o Fawrth 2015

<b>Anafusion</b>	
<b>Tanau Damweiniol mewn Anheddau</b>	
Pobl oed 65+	20
Hil: (pawb heblaw am Gymry a Saeson)	8
<b>Damweiniau ar y Ffyrdd (a fynychwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub</b>	
Pobl oed 65+	80
Hil: (pawb heblaw am Gymry a Saeson)	89
ffynhonnell - System Cofnodi Digwyddiadau (SCD)	
<b>Archwiliadau Diogelwch rhag Tân yn y Cartref</b>	
Anabl	6,176
Larymau Mwg wedi'u gosod	2,198
Pobl oed 65+	9,565
Larymau Mwg wedi'u gosod	4,840
Hil (pawb heblaw am Gymry a Saeson)	624
Larymau Mwg wedi'u gosod	503
Teuluoedd Un Rhiant	960
Larymau Mwg wedi'u gosod	765
Gosodwyd Larymau mwg arbenigol i'r byddar 1226	1,990

# Data 'Arolwg Ôl-Ddigwyddiad'

## 1af o Ebrill 2013 i'r 31ain o Fawrth 2014

Yn ddiweddar, fe wnaethom ddechrau cynnwys atodiad anhysbys o gwestiynau yn seiliedig ar Nodweddion Gwarchodedig yn ein Harolwg Ôl-Ddigwyddiad. Danfonir hwn at bawb sy'n derbyn ein gwasanaethau argyfwng (tanau yn y cartref, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac ati).

Gan ei fod yn newydd, mae'r cyfnod ar gyfer data yn fyr; ac er nad oes modd dilysu'r wybodaeth a roddir, mae hwn yn gam arall wrth sicrhau ein bod yn lleihau risg ar draws yr holl gymunedau amrywiol y gwasanaethwn.

(DDYB yn golygu 'Heb ateb')

<b>Atebion:</b>	<b>73</b>
<b>Oed:</b>	<b>18-39: 15    40-59: 32    60+: 65    DDYB: 1</b>
<b>Salwch Hirdymor neu Anabled:</b>	<b>Oes: 17    Nag oes: 48 Dewis peidio datgan: 2    DDYB: 6</b>
<b>Hil/Cenedligrwydd:</b>	<b>Asiaidd: 3    Du: 2    Aml-Hil: 1 Gwyn: 62</b>
<b>Crefydd / Cred:</b>	<b>Bwdhaidd: 2    Cristion: 41    Mwslimaidd: 3    Dim crefydd: 18 Arall: 1    Dewis peidio datgan: 2</b>
<b>Rhyw:</b>	<b>Benyw: 38    Gwryw: 32    DDYB: 3</b>
<b>Rhyw'r un a bennwyd ar</b>	<b>Oes: 70    Nac Ydw: 1 DDYB: 2</b>
<b>Cyfeiriadedd</b>	<b>Deurywiol: 2    Hoyw/Lesbaidd: 1    Heterorywiol: 60 Dewis peidio datgan: 2    DDYB: 8</b>

## Data Staff - 1<sup>af</sup> o Ebrill 2014 i'r 31<sup>ain</sup> o Fawrth 2015

<b>Rhyw</b>	
<i>Benyw:</i>	288
<i>Gwryw:</i>	1,883

Oed	Benyw	Gwryw
18-24:	13	133
25-40:	100	789
41-59:	171	939
60+:	4	22

<b>Anabledd (wedi )</b>	
<i>Benyw:</i>	3
<i>Gwryw:</i>	18

Hil/Cenedligrwydd	Benyw	Gwryw
<i>Arabaid Cymreig</i>	0	1
<i>Affricanaidd</i>	0	3
<i>Asiaidd a Gwyn</i>	0	4
<i>Du Caribiaidd a Gwyn</i>	0	4
<i>Caribiaidd</i>	1	3
<i>Tsieineaidd</i>	0	2
<i>Cymysg Arall</i>	1	4
<i>Heb ddatgan</i>	9	9
<i>Pacistanaidd</i>	0	3
<i>Indiaidd</i>	0	1
<i>Gwyn/Prydeinig</i>	111	911
<i>Gwyn Seisnig</i>	7	22
<i>Gwyn Gwyddelig</i>	0	2
<i>Gwyn Arall</i>	5	13
<i>Gwyn Cymreig</i>	154	818

<b>Cyflogaeth wedi Peidio:</b>		
Oed	Benyw	Gwryw
18-24:	3	21
25-40:	7	54
41-59:	7	64
60+:	0	9

Cyflogaeth wedi peidio	Benyw	Gwryw
<i>Ymddeoliad</i>	0	38
<i>Diswyddiad</i>	1	11
<i>Ymddeoliad/Diswyddiad</i>	0	2
<i>Afiechyd</i>	0	4
<i>Ymddiswyddiad</i>	9	77*
<i>Diswyddwyd</i>	1	9
<i>Marw yn y Swydd</i>	0	1
<i>Wedi methu â dechrau</i>	0	2
<i>Diwedd Cytundeb</i>	4	2
<i>Trosglwyddwyd i Frigâd arall</i>	2	2

<b>Cyflogaeth wedi peidio:</b>		
	Benyw	Gwryw
<i>Asiaidd a Gwyn</i>	0	0
<i>Gwyn</i>	14	130
<i>a Du Caribiaidd</i>	0	1
<i>Du Arall</i>	0	0
<i>Tsieineaidd</i>	0	0
<i>Pacistanaidd</i>	0	0
<i>Cymysg Arall</i>	1	0
<i>Heb ddatgan</i>	2	17

\* yn cynnwys ymladdwyr cynorthwyol

Nid yw'r system AD gyfredol yn casglu gwybodaeth ar Ailbennu Rhywedd, Crefydd/Crediniaeth, neu Gyfeiriadedd Rhywiol. Bydd gan y system AD newydd (sydd i'w gyflwyno yn 2015) y swyddogaeth hon

**Data Staff - 1<sup>af</sup> o Ebrill 2014 - 31<sup>ain</sup> o Fawrth 2015**

*(Yn seiliedig ar Raddfa Gyflog/Rheng)*

	<i>Rheolwr Strategol</i>	<i>Rheolwr Canol</i>	<i>Rheolwr Goruchwyli</i>	<i>Arall</i>
<b>Staff Corfforaethol: *</b>				
<i>Benyw</i>	3	30	66	74
<i>Gwryw</i>	6	28	64	23
<b>Staff Gwisg:</b>				
<i>Benyw</i>	1	8	13	55
<i>Gwryw</i>	6	77	455	913
<b>Ansefydliadol: **</b>				
<i>Benyw</i>	0	1	1	37

\* ffigyrau ar gyfer Rheolwyr Strategol Staff Corfforaethol yn cynnwys 3 Meddyg rhan amser: 2 fenyw/1 gwryw

\*\* yn cynnwys cytundebau eilaidd (e.e.: yn cynnwys cytundebau eilaidd (e.e.: Chwilio ac Achub Trefol, Swyddogion, hyfforddiant cytundeb, Ymladdwyr Tân Ifanc hyfforddwyr, 134 gennym o ymladdwyr)

DATA RECRIWTIO STAFF CORFFORAETHOL

	CYFANSWM CEISIADAU
<b>BENYW</b>	106
<b>GWRYW</b>	99
<b>TRAWSRYWIOL</b>	0
<b>ANHYSBYS</b>	0
	<b>205</b>
<i>DAN 18</i>	9
<i>18-24</i>	53
<i>25-40</i>	62
<i>41-59</i>	45
<i>60+</i>	5
<i>Dewis peidio datgan</i>	31
<i>Cofrestrwyd ag Anabledd</i>	7
<i>Heb Gofrestru ag</i>	167
<i>Dewis peidio datgan</i>	31
<i>Lleiafrif Ethnig</i>	7
<i>Gwyn</i>	168
<i>Dewis peidio datgan</i>	30
<i>Bwdhaidd</i>	0
<i>Cristion</i>	77
<i>Hindŵaidd</i>	0
<i>Iddewig</i>	0
<i>Mwslimaidd</i>	1
<i>Sikh</i>	0
<i>Dim</i>	82
<i>Arall</i>	0
<i>Dewis peidio datgan</i>	45
<i>Deurywiol</i>	1
<i>Hoyw</i>	4
<i>Heterorywiol</i>	162
<i>Lesbaidd</i>	2
<i>Dewis peidio datgan</i>	36
<i>Ddim yn Siarad Cymraeg</i>	103
<i>Dysgwr</i>	34
<i>Canolradd</i>	10
<i>Rhugl</i>	39
<i>Dewis peidio datgan</i>	19

**DATA RECRIWTIO RHAN AMSER**

	<b>CYFANSWM CEISIADAU</b>
<b>BENYW</b>	27
<b>GWRYW</b>	295
<b>TRAWSRYWIOL</b>	0
<b>ANHYSBYS</b>	0
	<b>322</b>
<b>DAN 18</b>	15
<b>18-24</b>	153
<b>25-40</b>	122
<b>41-59</b>	26
<b>60+</b>	0
<b>Dewis peidio datgan</b>	6
<b>Cofrestrwyd ag Anabledd</b>	0
<b>Heb Gofrestru ag</b>	271
<b>Dewis peidio datgan</b>	51
<b>Lleiafrif Ethnig</b>	3
<b>Gwyn</b>	306
<b>Dewis peidio datgan</b>	13
<b>Bwdhaidd</b>	0
<b>Cristion</b>	93
<b>Hindŵaidd</b>	0
<b>Iddewig</b>	0
<b>Mwslimaidd</b>	0
<b>Sikh</b>	0
<b>Dim</b>	174
<b>Arall</b>	0
<b>Dewis peidio datgan</b>	55
<b>Deurywiol</b>	3
<b>Hoyw</b>	0
<b>Heterorywiol</b>	261
<b>Lesbaidd</b>	2
<b>Dewis peidio datgan</b>	56
<b>Ddim yn Siarad Cymraeg</b>	210
<b>Dysgwr</b>	27
<b>Canolradd</b>	13
<b>Rhugl</b>	20
<b>Dewis peidio datgan</b>	52

# Geirfa

## **Deddf Cydraddoldeb (2010)**

Amnewiodd hyn mwy na 100 darn o ddeddfwriaeth gydag un ddogfen gyfreithiol.

## **Dyletswydd Gyffredinol**

Sefydlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol sydd â thri maes sylfaenol iddi:

Dileu gwahaniaethu. Dyrchafu

cydraddoldeb cyfle. Maethu

perthnasau da. **Nodweddion**

## **Gwarchoddedig**

Rhain yw'r nodweddion a adnabuwyd ac a warchodwyd gan Gyfraith rhag cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn neu, fel arall, cael eu trin yn llai nag unrhyw arall, ac sy'n cwmpasu: Oed, Crediniaeth/Anghrediniaeth, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Hil, Rhyw, a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Mewn rhai achosion, mae hyn hefyd yn cynnwys Partneriaethau Sifil/ Priodasau a Beichiogrwydd/Mamolaeth.

## **Y Dyletswyddau Penodol Cymreig**

Nododd Llywodraeth Cymru feysydd penodol sy'n rhaid cydymffurfio â hwy yma yng Nghymru, ac wrth wneud hyn, gall cyrff cyhoeddus megis y Gwasanaeth Tân ac Achub arddangos cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Gyffredinol uchod.

## **Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)**

Datblygir ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda mewnbwn gan staff a chymunedau, ac amlinella sut yr ydym yn cynllunio cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb (2010) a'r Dyletswyddau Penodol Cymreig ill dau.

## **Cynllun Gwella (CG)**

Cyhoeddir hwn ar ein gwefan [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk) a dengys sut yr ydym yn perfformio ar draws ein gwasanaethau, ynghyd â beth

yw'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. **Cynllun Lleihau Risg (CLI R)**

Cyhoeddir y cynllun ar ein gwefan (gweler uchod) a dengys ein blaenoriaethau yn ogystal â sut yr ydym yn bwriadu cwrdd â hwy.





SWFireandRescue

**South Wales**  
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub  
**De Cymru**

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72-8LX

e-bost: [amrywiaeth@decymru-tan.gov.uk](mailto:amrywiaeth@decymru-tan.gov.uk). [www.decymru-tan.gov.uk](http://www.decymru-tan.gov.uk)